Wrth ddyfod, Iesu, ger dy fron

Caneuon Ffydd: Rhif 13

Wrth ddyfod, Iesu, ger dy fron
diolchwn yn yr oedfa hon
am dy addewid rasol di
i fod ymhlith y ddau neu dri.

O fewn dy byrth mae nefol rin
a heddwch i'n heneidiau blin,
ac ennaint pêr dy eiriau di
yn foddion gras i'r ddau neu dri.

O tyred yn dy rym i'n plith
i'n hadnewyddu ni â'th wlith,
ein mawl a'n diolch derbyn di
am gynnal braich y ddau neu dri.

O deued wedi'r hirlwm maith
dy wanwyn i fywhau y gwaith,
i'th Eglwys lân O anfon di
gydweithwyr at y ddau neu dri.

T. R. JONES

MYFYRDOD

Arferai pregethwyr y gorffennol sôn am 'dynnu ar raffau'r addewidion', sef dal gafael yn yr addewidion sydd inni yn y Beibl ac atgoffa Duw ohonyn nhw mewn gweddi. Ond nid oes angen atgoffa ein Harglwydd o'i addewidion i ni, wrth gwrs, er bod angen ein hatgoffa ein hunain ohonyn nhw yn gyson.

Dal gafael yn addewid Iesu a geir ym Mathew 18:20 mae T. R. Jones yn yr emyn hwn sydd yn gyfres o weddïau ynddo'i hun: 'Oherwydd lle y mae dau neu dri wedi dod ynghyd yn fy enw i, yr wyf yno yn eu canol.'

Felly, os gwyddom ein bod yn cyfarfod yn enw Iesu ac yn dod ynghyd mewn gweddi i ofyn am yr un arweiniad a bendithion,

yna gallwn fod yn sicr bod Iesu yn sefyll yn ein plith. Sôn yn benodol am faterion lle mae angen arweiniad ynglŷn â disgyblaeth oddi mewn i'r Eglwys mae Iesu yma, ac yn ein hatgoffa na ddylem gymryd materion felly i'n dwylo ein hunain heb yn gyntaf fod wedi eu dwyn gerbron yr Arglwydd mewn gweddi, gan fod gweddi yn ein harbed hefyd rhag gweithredu'n faleisus. Gallwn yn sicr gymhwyso'r addewid ar gyfer gweddi yn gyffredinol a chredu bod grym neilltuol i'n gweddïau pan ddown ynghyd i'w cyflwyno yn enw Iesu Grist. Cydweddïo y byddwn yn ein hoedfaon, nid offrymu gweddïau unigol, ac mae'n dda rhoi cyfle i bawb i gadarnhau gweddïau ei gilydd wrth weddïo ar ran yr holl rai sydd wedi dod ynghyd.

Diolch mae'r emynydd yn gyntaf am bresenoldeb Iesu, oherwydd o wybod ein bod yn gytûn mewn gweddi a'n bod yn un yng Nghrist fe wyddom ei fod yn ein plith eisoes ac nad oes rhaid ei wahodd ymhellach. Peth rhyfedd iawn yw rhoi gwahoddiad i rywun i ymuno â chi os yw eisoes yno!

Ond nid wyf yn credu mai pwrpas Iesu wrth roi ei addewid yma oedd cyfyngu ein cyfarfodydd i ddau neu dri neu gyfiawnhau cyfarfodydd felly, oherwydd nid yw Iesu'n bendithio'r man y byddwn yn cyfarfod ynddo yn gymaint â'r rhai sy'n dod ynghyd yn ei enw. Eto i gyd, os yw'r emynydd yn ein hatgoffa bod Iesu yn ein plith, yna mae'n gwybod bod angen ein bywiocáu arnom, ac mai dim ond ei Ysbryd Glân ynom all wneud hynny, ac felly fe â yn ei flaen i ofyn am ei rym a'i adnewyddiad:

O tyred yn dy rym i'n plith
I'n hadnewyddu ni â'th wlith.

Mae'r gofyn olaf am 'gydweithwyr at y ddau neu dri', a'r gofyn hwnnw'n gwbl unol â gorchymyn Iesu ym Mathew 9:37–38: 'Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin; deisyfwch felly ar Arglwydd y cynhaeaf anfon gweithwyr i'w gynhaeaf.'

GWEDDI

Diolchwn, Arglwydd Iesu, am dy addewid i fod ymhlith y rhai sy'n dod ynghyd yn dy enw. Gofynnwn ninnau hefyd am iti'n llenwi ni â'th Ysbryd i'n hadnewyddu yn ein gwaith, oherwydd bod ehangder y cynhaeaf yn ormod inni yn ein nerth ein hunain. Deisyfwn ymhellach ar iti droi eraill at y gwaith a rhoi cydweithwyr i rannu gyda ni yn dy gynhaeaf. Y cyfan er mwyn dy enw. Amen.